Home Office Y Swyddfa Gartref

# Deddf Pwerau Ymchwilio (Diwygio) 2024

## Ymgynghori: Codau Ymarfer a Rheoliadau Hysbysiadau

Hydref 2024

## Rhagair Gweinidogol

Dyletswydd gyntaf unrhyw Lywodraeth yw cadw'r wlad a'i dinasyddion yn ddiogel – sef amddiffyn ein diogelwch cenedlaethol ac amddiffyn ein dinasyddion rhag terfysgaeth a throseddau difrifol.

Ym mis Ebrill eleni, cafodd Deddf Pwerau Ymchwilio (Diwygio) 2024 Gydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau wedi'u targedu i Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 i alluogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chudd-wybodaeth i barhau i fynd i'r afael ag amrywiaeth o fygythiadau sy'n esblygu yn wyneb technolegau newydd a grwpiau terfysgol a throseddol cynyddol soffistigedig.

Mae'r diweddariadau hyn yn ceisio sicrhau bod fframwaith pwerau ymchwilio'r DU yn parhau i fod yn addas at y diben er mwyn amddiffyn ein diogelwch cenedlaethol ac atal, ymchwilio, tarfu ac erlyn y troseddau mwyaf difrifol. Yn sylfaenol i gyflawni hyn mae cael prosesau cadarn ar waith i sicrhau y gall asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth ragweld newidiadau technolegol sy'n cael eu datblygu gan weithredwyr telathrebu, lle gallai'r rhain effeithio'n negyddol ar eu gwaith tuag at gynnal diogelwch cenedlaethol. Yn hytrach na chael gwasanaethau diogelwch a gorfodi'r gyfraith yn ôl-weithredol i liniaru bygythiadau, gan gynnwys gan derfysgwyr a chamdrinwyr plant yn rhywiol a allai ecsbloetio'r newidiadau hynny, mae'n hanfodol cael proses ymlaen llaw ar gyfer deialog adeiladol gyda gweithredwyr perthnasol lle bo angen.

Mae mesurau diogelu pwysig yn sail i'r gyfundrefn, gan sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu defnyddio mewn ffordd angenrheidiol a chymesur, sy'n gosod hawliau sylfaenol megis parch at breifatrwydd yn ganolog iddynt.


Rhan greiddiol o'r mesurau diogelu hyn yw'r gyfundrefn oruchwylio gadarn, ac mae'r Ddeddf wedi cyflwyno mesurau sy'n cynyddu gwydnwch Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio i gefnogi'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae'r newidiadau hyn yn gwella'r arolygiaeth annibynnol gadarn y darperir ar ei chyfer yn Neddf Pwerau Ymchwilio 2016.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar dri Chod Ymarfer newydd, a fydd yn rhoi canllawiau pellach ar weithredu'r Rhannau 7A newydd (setiau Data Personol Isel / dim Swmp) a 7B (setiau Data Personol Swmp trydydd parti) o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016, yn ogystal â chyfuno'r holl wybodaeth am weithredu Hysbysiadau yn un Cod Ymarfer. Bydd hefyd yn cynnwys diweddariadau arfaethedig i bump o'r Codau Ymarfer presennol – Setiau Data Personol Swmp o dan Rhan 7, Data Cyfathrebiadau, Data Cyfathrebiadau Swmp, Ymyrryd ag Offer, a Rhyng-gipio – i roi newidiadau a wneir gan y Ddeddf ar waith, yn ogystal â diweddariadau ehangach i sicrhau bod y Codau'n parhau i fod yn addas at y dibenion. Mae'r Codau'n nodi sut y

dylid arfer y pwerau ac yn nodi’r prosesau a’r mesurau diogelu sy’n llywodraethu’r defnydd ohonynt, gan roi canllawiau i’r rhai sy’n eu defnyddio.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn darparu testun llawn yr wyth Cod Ymarfer newydd a’r rhai wedi'u diweddaru. Rydym yn dymuno sicrhau bod y pwerau’n gweithredu mor glir a thryloyw â phosibl, a bod y rhai sy’n eu defnyddio yn deall eu cyfrifoldebau. Mae’r Codau hyn wedi’u datblygu mewn partneriaeth ag asiantaethau gorfodi’r gyfraith a chudd-wybodaeth a fydd yn arfer y pwerau. Mae Swyddfa’r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio, sy’n cefnogi’r Comisiynydd yn ei oruchwyliaeth o’r gyfundrefn, hefyd wedi bod yn rhan o’r ymgysylltu cynnar ar y Codau drafft. Yn ogystal â’r Codau Ymarfer newydd a diwygiedig, mae’r ymgynghoriad hwn hefyd yn ceisio barn ar reoliadau newydd sy’n ymwneud â’r gyfundrefn Hysbysiadau, gan sicrhau bod y mesurau newydd yn cael eu gweithredu mewn ffordd briodol ar gyfer y gymuned sy’n defnyddio’r pwerau ymchwilio a’r gweithredwyr telathrebu hynny sy’n gallu cael eu heffeithio gan y newidiadau.

Mae'n hanfodol bod gan ein hasiantaethau cudd-wybodaeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yr offer sydd eu hangen arnynt i gadw'r wlad yn ddiogel. Mae’r newidiadau a wneir gan Ddeddf Pwerau Ymchwilio (Diwygio) 2024 yn helpu i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn wir, a bydd y Codau Ymarfer newydd a’r rhai wedi’u diweddaru yn sicrhau bod yr eglurder angenrheidiol ar weithredu pwerau ymchwilio a fydd yn rhoi ffydd i’r cyhoedd yn eu defnydd parhaol.



**Dan Jarvis MBE MP**
Gweinidog Diogelwch

## Cynnwys

**Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn** .......... 5
**Cefndir** .......... 6
Beth yw'r Codau Ymarfer? .......... 6
Pam ydym yn ymgynghori? .......... 6
Beth yw'r Codau Ymarfer newydd? .......... 7
Pa Godau Ymarfer sy'n cael eu diweddaru? .......... 7
**Codau Ymarfer** .......... 8
Codau Ymarfer Newydd .......... 8
Codau Ymarfer wedi'u Diweddaru .......... 10
**Rheoliadau** .......... 13
Beth yw rheoliadau? .......... 13
Y Rheoliadau Pwerau Ymchwilio (Adolygu Hysbysiadau a Bwrdd Cynghori Technegol) 2018 .......... 13
Adolygu Gallu Technegol, Cadw Data a Hysbysiadau Diogelwch Cenedlaethol .......... 13
Bwrdd Cynghori Technegol (TAB) .......... 15
Llinell amser Adolgygu hysbysiadau .......... 18
Beth sy'n cael ei gynnwys ar Hysbysiadau Hysbysu yn y Rheoliadau drafft? .......... **Error! Bookmark not defined.**

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **I:** | Croesewir sylwadau gan awdurdodau cyhoeddus sydd â phwerau o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016, sefydliadau y gallai Deddf Pwerau Ymchwilio (Diwygio) 2024 effeithio ar eu gwasanaethau, cyrff proffesiynol, grwpiau buddiant, y byd academaidd a'r cyhoedd yn ehangach. |
| **Hyd:** | O 14 Hydref 2024 i 6 Ionawr 2025 (12 wythnos) |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i:** | IPAConsultation@homeoffice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Gellir cyflwyno sylwadau trwy e-bost:<br>IPAConsultation@homeoffice.gov.uk<br>Neu drwy'r bost:<br>IPA Codes of Practice Consultation<br>5th Floor Peel Building<br>Home Office<br>2 Marsham Street, SW1P 4DF |
| **Papur ymateb:** | Bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi a bydd dogfen 'Ymateb i'r Ymgynghoriad' yn cael ei chyhoeddi. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu trin fel rhai cyhoeddus, oni nodir yn wahanol. |

## Cefndir

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin ag un set o reoliadau ac wyth Cod Ymarfer. Y rheoliadau a gwmpesir yn yr ymgynghoriad hwn yw'r *Rheoliadau Pwerau Ymchwilio (Hysbysiadau Hysbysu, Cyfnodau Adolygu a Bwrdd Cynghori Technegol)*. Mae’r rheoliadau hyn yn diwygio’r *Rheoliadau Pwerau Ymchwilio* presennol *(Adolygu Hysbysiadau a Bwrdd Cynghori Technegol) 2018* i adlewyrchu’r newidiadau yn Neddf Pwerau Ymchwilio (Diwygio) 2024 (Deddf 2024) ac yn darparu ar gyfer yr hysbysiadau hysbysu newydd.

Adlewyrchir rhywfaint o'r manylion yn y rheoliadau a rhywfaint ohono yn y Codau. Mae hyn oherwydd bod gan y ddwy ddogfen wahanol ddibenion. Rydym yn gofyn, felly, i’r ddwy elfen gael eu hystyried wrth ymateb i’r ymgynghoriad.

Mae mewnbwn a ddarparwyd gan bartneriaid gweithredol, gweithredwyr telathrebu a seneddwyr yn ystod taith Deddf 2024 wedi’i ystyried wrth baratoi’r Codau Ymarfer a’r rheoliadau.

### *Beth yw’r Codau Ymarfer?*

Bwriad y Codau Ymarfer yn bennaf yw arwain yr awdurdodau cyhoeddus hynny sy'n arfer pwerau ac yn cyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (IPA).

Mae’r Codau’n nodi’r prosesau a’r mesurau diogelu sy’n llywodraethu’r defnydd o’r pwerau gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys yr heddlu ac asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth. Maent yn manylu ar sut y dylid arfer y pwerau a chyflawni dyletswyddau, gan gynnwys enghreifftiau o arfer gorau. Eu bwriad yw rhoi eglurder ychwanegol a sicrhau’r safonau uchaf o broffesiynoldeb a chydymffurfiaeth â’r ddeddfwriaeth.

Mae gan God Ymarfer a gyhoeddir o dan yr IPA rym statudol ac mae’n rhaid i unigolion sy’n arfer pwerau ac yn cyflawni dyletswyddau y mae’r Cod yn berthnasol iddynt roi sylw iddo. Mae’r Cod yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn achosion troseddol a sifil a gall unrhyw lys, tribiwnlys neu awdurdod goruchwylio ei ystyried wrth benderfynu ar gwestiwn sy’n codi mewn cysylltiad â’r pwerau a’r dyletswyddau hynny.

### *Pam ydym yn ymgynghori?*

O dan yr IPA, mae’n ofynnol i’r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Codau Ymarfer ynghylch arfer pwerau a chyflawni dyletswyddau o dan y Ddeddf.

Cyn cyhoeddi unrhyw God, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi a chyhoeddi drafft ohono. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd ystyried unrhyw sylwadau a wneir am y Cod diwygiedig drafft a chaiff addasu'r drafft yn unol â hynny.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn bodloni'r gofyniad hwnnw. Daw'r Codau diwygiedig i rym yn unol â rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a rhaid i'r offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o'r fath gael ei osod gerbron y Senedd i'w gymeradwyo.

### *Beth yw'r Codau Ymarfer newydd?*

Mae tri Chod Ymarfer newydd yn cael eu hymgynghori arnynt ar gyfer cyfundrefnau a ddaeth yn sgil Deddf 2024. Mae'r cyntaf yn God ar gyfer Rhan 7A (Setiau Data Personol Swmp gyda disgwyliadau isel neu ddim digwyliad o breifatrwydd), mae'r ail ar gyfer Rhan 7B (setiau Data Personol Swmp Trydydd Parti), ac mae'r trydydd yn cydgrynhoi'r holl gynnwys presennol sy'n ymwneud â Hysbysiadau yn un Cod Ymarfer, yn ogystal â darparu rhagor o fanylion am ddarpariaethau Hysbysiadau newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf 2024. Ceir rhagor o fanylion am bob un ar dudalennau 8-12.

### *Pa Godau Ymarfer sy'n cael eu diweddaru?*

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â'r diweddariadau i bum Cod Ymarfer presennol: Setiau Data Personol Swmp o dan Rhan 7, Data Cyfathrebiadau, Data Cyfathrebiadau Swmp, Ymyrryd ag Offer, a Rhyng-gipio.

Yn flaenorol, er bod gan Hysbysiadau Diogelwch Cenedlaethol God annibynnol, roedd Hysbysiadau Cadw Data a Hysbysiadau Gallu Technegol wedi'u cynnwys mewn Codau perthnasol eraill. Roeddem yn teimlo ei bod yn fwyaf priodol er mwyn sicrhau tryloywder ac eglurder ar y gyfundrefn hysbysiadau i greu un Cod sengl ar yr holl hysbysiadau, gan ddwyn ynghyd y cynnwys presennol a'r diweddariadau sy'n ofynnol gan Ddeddf 2024. Oherwydd hynny, mae'r holl gynnwys ar hysbysiadau wedi'i ddileu o'r Codau eraill rydym yn ymgynghori arnynt yma.

Mae'r Codau Ymarfer, y rhai newydd a'r rhai wedi'u diweddaru, i'w gweld fel Atodiadau i'r ymgynghoriad.

## Codau Ymarfer

Rydym yn ymgynghori ar wyth Cod Ymarfer newydd neu rai wedi'u diweddaru, sydd i'w gweld yn Atodiadau A i H. Isod ceir crynodeb o'r hyn a gwmpesir gan y Codau newydd a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r Codau presennol.

### *Codau Ymarfer Newydd*

Rhan 7A (Setiau Data Personol Swmp gyda Disgwyliad Isel neu ddim Disgwyliad o Breifatrwydd)

Diffinnir Set Data Personol Swmp (BPD) yn Rhan 7 o'r IPA fel set o wybodaeth sy'n cynnwys data personol sy'n ymwneud â nifer o unigolion lle mae natur y set ddata yn golygu bod y mwyafrif o'r unigolion yn annhebygol o fod, neu i ddod, o ddiddordeb i'r gwasanaethau cudd-wybodaeth, a gaiff ei gadw'n electronig gan wasanaeth cudd-wybodaeth a'i gadw i'w ddadansoddi wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Fe wnaeth Deddf 2024 fewnosod cyfundrefn newydd yn yr IPA – Rhan 7A – sy'n galluogi'r asiantaethau cudd-wybodaeth i wneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o setiau data y mae gan unigolion ddisgwyliad isel neu ddim disgwyliad o breifatrwydd. Mae'r Cod Ymarfer hwn (sydd i'w weld yn Atodiad A) yn nodi sut y dylid gweithredu'r gyfundrefn newydd hon.

Rhan 7B (setiau Data Personol Swmp Trydydd Parti)

Mae set ddata swmp bersonol trydydd parti (3PD) yn set ddata a fyddai'n dod o fewn Rhan 7 o'r IPA pe byddai gwasanaeth cudd-wybodaeth yn ei chadw, ond a ddelir yn lle hynny gan drydydd parti (megis adrannau'r Llywodraeth neu endidau masnachol).

Fe wnaeth Deddf 2024 fewnosod cyfundrefn 3PD newydd yn yr IPA – Rhan 7B – a fyddai'n berthnasol pan fo gan wasanaeth cudd-wybodaeth fynediad perthnasol i'r 3PD ac yn ei archwilio yn y fan a'r lle (hynny yw, ar systemau'r trydydd parti) at ddiben eu swyddogaethau statudol (gweler Deddf Gwasanaeth Diogelwch 1989 a Deddf Gwasanaethau Cudd-wybodaeth 1994). Mae'r Cod Ymarfer hwn (sydd i'w weld yn Atodiad B) yn nodi sut y dylid gweithredu'r gyfundrefn newydd hon.

Hysbysiadau

Nid yw llawer o'r Cod Ymarfer hwn yn newydd – yn flaenorol, roedd Cod Ymarfer ar gyfer Hysbysiadau Diogelwch Cenedlaethol, tra bod Hysbysiadau Cadw Data a Hysbysiadau Gallu Technegol wedi'u cynnwys mewn Codau Ymarfer perthnasol eraill (ar gyfer data cyfathrebiadau, rhyng-gipio, ymyrryd ag offer a data cyfathrebiadau swmp).

Ar ôl ystyried, fe wnaethom benderfynu yn hytrach na chreu Cod Ymarfer ar wahân pellach ar gyfer Hysbysiadau Hysbysu ac yna adlewyrchu'r newidiadau eraill o Ddeddf 2024 o fewn y Codau eraill, mai'r peth mwyaf priodol i sicrhau tryloywder ac eglurder ar y gyfundrefn oedd creu un Cod sengl ar bob hysbysiad.

Mae'r Cod Ymarfer yr ymgynghorir arno, felly, yn gyfuniad o destun o'r Codau Ymarfer presennol, yr ymgynghorwyd yn ei gylch yn flaenorol fel sy'n ofynnol gan yr IPA, a thestun newydd sy'n ymdrin â'r diwygiadau a wnaed i'r cyfundrefnau hysbysiadau yn Neddf 2024.

Mae'r elfennau newydd mwyaf arwyddocaol a gynigir yn y Cod Ymarfer yn ymwneud â'r newidiadau o Ddeddf 2024. O fewn y Cod y rhain yw:

- **2.1: Gweithredwr telathrebu a gweithredwr post**. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r diffiniad diwygiedig o weithredwr telathrebu.
- **12.3 a 12.6-12.9: Atgyfeirio hysbysiad cadw data, gallu technegol neu ddiogelwch cenedlaethol i'w adolygu**. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r diwygiadau i'r broses adolygu hysbysiadau yn Neddf 2024.
- **14.31-14.34: Adnewyddu hysbysiadau cadw data, gallu technegol a diogelwch cenedlaethol**. Mae'r paragraffau newydd hyn yn esbonio'r broses adnewyddu newydd ar gyfer hysbysiadau.
- **Pennod 7: Hysbysiadau Hysbysu**. Mae'r adran newydd hon yn ymdrin â:
    - newidiadau perthnasol a allai fod o fewn cwmpas Hysbysiad Hysbysu;
    - cadarnhau'r safbwynt a gymerwyd drwy gydol taith Seneddol Deddf 2024 nad yw patsiau diogelwch o fewn cwmpas hysbysiad hysbysu;
    - esbonio'r broses ymgynghori a rhoi Hysbysiad Hysbysu, gan gynnwys y ffactorau i'w hystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol; ac
    - egluro'r broses ar gyfer hysbysu unwaith y bydd hysbysiad yn ei le ac amrywio a dirymu Hysbysiad Hysbysu.

Mae newidiadau hefyd o fewn y Cod i adlewyrchu'r addasiadau angenrheidiol i ddod â'r iaith o'r Codau blaenorol at ei gilydd - diwygiadau cysondeb yw'r rhain yn hytrach na rhai o sylwedd. Er enghraifft, sicrhau bod pob hysbysiad perthnasol yn dod o dan baragraffau penodol drwy gynnwys Hysbysiadau Cadw Data ochr yn ochr â Hysbysiadau Gallu Technegol a Hysbysiadau Diogelwch Cenedlaethol. Gan fod testun y Codau blaenorol bron yn union yr un fath, nid yw'r newidiadau hyn wedi cyflwyno proses newydd nac wedi newid cymhwysiad blaenorol y Cod.

Dylid nodi bod Pennod 8 ynghylch trosolwg yn adlewyrchiad o'r Codau eraill (lle bydd yr iaith hefyd yn parhau) er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn oruchwylio'n ddigon clir pan gaiff y Cod ei ddarllen.

## *Codau Ymarfer wedi'u Diweddaru*

Rhan 7 (Setiau Data Personol Swmp)

Mae diweddariadau'n cael eu gwneud i God Rhan 7 (sydd i'w weld yn Atodiad C) i adlewyrchu newidiadau i'r IPA a wnaed gan Ddeddf 2024 ac i wneud mân newidiadau i agweddau eraill ar y Cod i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu canllawiau cynhwysfawr ar gymhwyso'r pwerau ac am gysondeb ar draws y Codau.

Fe wnaeth Deddf 2024 ddiwygio'r IPA i ganiatáu ar gyfer ymestyn gwarant BPD o 6 mis i 12 mis, ac i wneud yn glir y gall penaethiaid asiantaethau ddirprwyo rhai swyddogaethau presennol mewn perthynas â gwarantau BPD.

Data Cyfathrebiadau Swmp

Mae'r Cod Data Cyfathrebiadau Swmp, sydd i'w weld yn Atodiad D, yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu diwygiad a wnaed i'r IPA gan Ddeddf 2024 sy'n gwneud darpariaeth i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPC) hysbysu unigolion yr effeithir arnynt am achosion difrifol o dorri rheolau data personol yn ymwneud â gwarantau a gyhoeddir o dan yr IPA, os bydd yr IPC yn penderfynu ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Mae'r Codau Data Cyfathrebiadau, Rhyng-gipio ac Ymyrryd ag Offer hefyd yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newid hwn.

Data Cyfathrebiadau

Mae diweddariadau'n cael eu gwneud i'r Cod Data Cyfathrebiadau (sydd i'w weld yn Atodiad E) i adlewyrchu newidiadau i'r IPA a wnaed gan Ddeddf 2024 ac i wneud newidiadau i agweddau eraill ar y Cod i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu canllawiau cynhwysfawr ar gymhwyso'r pwerau ac am gysondeb ar draws y Codau.

Mae'r Cod yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r diwygiadau a ganlyn a wnaed gan Ddeddf 2024:

- Newidiadau i adran 11 IPA, yn gyntaf i ddiffinio "awdurdod cyfreithlon" at ddibenion y drosedd adran 11 o gaffael data cyfathrebu heb awdurdod cyfreithlon, ac yn ail i ddileu o gwmpas adran 11 y rhannu data cyfathrebu rhwng awdurdodau cyhoeddus lle mae'r awdurdod cyhoeddus sy'n darparu'r data cyfathrebu hefyd yn weithredwr telathrebu.
- Newidiadau i adran 12 IPA i adfer pwerau casglu gwybodaeth reoleiddiol a goruchwyliol i awdurdodau cyhoeddus a restrir yn Atodlen 4 ac Atodlen 2A newydd yr IPA.

- Newidiadau i adran 261 IPA i ddileu unrhyw amwysedd posibl drwy nodi bod data tanysgrifiwr a chyfrif yn gyfystyr â data cyfathrebu pan fydd yn cynorthwyo i adnabod endid.
- Ychwanegu amod D newydd at y rhestr bresennol o amodau A i C ar gyfer defnyddio Cofnodion Cysylltiad Rhyngrwyd (ICRs) yn adran 62 IPA.

Ymyrryd ag Offer a Rhyng-gipio

Mae diweddariadau'n cael eu gwneud i'r Codau Rhyng-gipio (Atodiad F) ac Ymyrryd ag Offer (Atodiad G) i adlewyrchu newidiadau i'r IPA a wnaed gan Ddeddf 2024 ac i wneud mân newidiadau i agweddau eraill ar y Codau i sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu canllawiau cynhwysfawr ar gymhwyso'r pwerau ac am gysondeb ar draws Codau.

Mae'r Codau'n cael eu diweddaru i adlewyrchu'r diwygiadau a ganlyn a wnaed gan Ddeddf 2024:

- Gwneud darpariaeth i Brif Weinidog y DU ddewis cnewyllyn o bum Ysgrifennydd Gwladol a fydd â'r grym i arfer pŵer y Prif Weinidog i ddarparu ar gyfer awdurdodi ymyrraeth wedi'i thargedu (TI), archwiliad wedi'i dargedu neu ymyrraeth ag offer wedi'i dargedu (TEI) a fyddai'n gwarantu darparu ar gyfer mynediad at gyfathrebiadau aelod o ddeddfwrfa berthnasol, pan fo'r Prif Weinidog yn analluog neu'n methu â chael mynediad at gyfathrebiadau diogel.
- Ychwanegu Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol at y rhestr o benaethiaid gorfodi'r gyfraith sy'n gallu dirprwyo'r swyddogaeth o ystyried ceisiadau TEI o dan adran 106 IPA, i gynrychiolwyr priodol (fel y disgrifir yn y tabl yn Rhan 1 o Atodlen 6 IPA ) mewn achosion brys.
- Newid y prosesau sy'n gysylltiedig â thynnu gwrthrych o warant TEI a fyddai'n cael yr effaith o ddileu'r gofyniad i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr adeg y bydd y gwrthrych yn cael ei ddileu.
- Mân newidiadau i Atodlen 3 i roi cyfle i Gomisiynwyr Parôl Gogledd Iwerddon adolygu deunyddiau rhyng-gipio o dan rhai amgylchiadau a galluogi crwneriaid a chynghorwyr cyfreithiol sy'n cynnal cwestau ac ymchwiliadau i farwolaethau yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban i gael mynediad at ddeunyddiau rhyng-gipio.
- Cryfhau'r mesurau diogelu ar gyfer deunyddiau newyddiadurol cyfrinachol yn y gyfundrefn ymyrryd ag offer swmp, sy'n gofyn am awdurdodiad annibynnol ymlaen llaw gan yr IPC cyn y gellir defnyddio meini prawf (ar gyfer dod o hyd i ddeunydd newyddiadurol cyfrinachol neu nodi ffynhonnell newyddiadurol) i'w dethol i'w harchwilio.

Mae newidiadau pellach sy’n cael eu gwneud i’r Cod, er mwyn ychwanegu eglurder, nad ydynt yn gysylltiedig â Deddf 2024 yn cynnwys:

- Diweddariadau i'r diffiniad o gwnsela ysbrydol i sicrhau ei fod yn cynrychioli pob math o grefydd a chred.
- Cryfhau'r mesurau diogelu ar gyfer deunyddiau newyddiadurol cyfrinachol yn y drefn rhyng-gipio swmp.
- Diweddariadau i'r broses ar gyfer awdurdodi ceisiadau am warant EI brys ar gyfer penaethiaid gorfodi'r gyfraith a'u cynrychiolwyr priodol.
- Diweddariadau i'r broses ynghylch hyd gwarant pan fydd un rhan o warant gyfun yn cael ei chanslo.
- Mwy o eglurder i'r Codau ynghylch y sail statudol a'r gofynion ar gyfer rhyng-gipio cyfreithlon drwy'r post.
- Darparu manylion am y broses “awdurdod cenedl letyol” ar gyfer awdurdodi ymyrryd ag offer yn gwarantu ymgysylltu neu ddefnyddio offer tramor.

## Rheoliadau

### *Beth yw rheoliadau?*

Math o is-ddeddfwriaeth yw rheoliadau. Mae is-ddeddfwriaeth yn gyfraith a grëir gan weinidogion (neu gyrff eraill) o dan bwerau a roddwyd iddynt gan Ddeddf Seneddol (yr IPA yn yr achos hwn, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2024).

Mae is-ddeddfwriaeth yn llenwi manylion Deddfau. Mae'r manylion hyn yn darparu mesurau ymarferol sy'n galluogi'r gyfraith i gael ei gorfodi ac i weithredu'n effeithiol.

Mae'r IPA (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2024) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau drafft sy'n cael eu hymgynghori arnynt fynd drwy'r weithdrefn gadarnhaol wedyn. Mae hyn yn golygu bod angen dadl a phleidlais arnynt yn Nau Dŷ'r Senedd cyn y gellir eu gwneud a dod i rym. Pan fydd y Rheoliadau yn cael eu gosod yn y Senedd, bydd Memorandwm Esboniadol yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â nhw.

Mae'r diwygiadau a wneir gan Ddeddf 2024 i'r IPA yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n ymwneud yn benodol â hysbysiadau hysbysu. Mae'r pŵer hwn yn cynnwys pŵer i bennu mewn rheoliadau beth yw "newid perthnasol" a all fod yn ddarostyngedig i Hysbysiad Hysbysu a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i weithredwr telathrebu. Mae'r pŵer i bennu'r newidiadau hyn yn cynnwys y pŵer i "nodi newidiadau drwy gyfeirio at effaith y newidiadau ar allu gweithredwr perthnasol i ddarparu unrhyw gymorth y gall fod yn ofynnol i'r gweithredwr ei ddarparu mewn perthynas ag unrhyw warant, awdurdodiad neu hysbysiad a gyhoeddir neu a roddir o dan y Ddeddf hon."

### *Y Rheoliadau Pwerau Ymchwilio (Adolygu Hysbysiadau a Bwrdd Cynghori Technegol) 2018*

Mae'r Rheoliadau Pwerau Ymchwilio (Adolygu Hysbysiadau a Bwrdd Cynghori Technegol) 2018 (OS/2018/354) presennol yn nodi'r cyfnod a'r amgylchiadau pan gaiff person y rhoddir hysbysiad iddo o dan Ddeddf 2016 gyfeirio'r hysbysiad hwnnw at yr Ysgrifennydd Gwladol i'w adolygu. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i aelodaeth y Bwrdd Cynghori Technegol (TAB) fod.

### *Adolygu Gallu Technegol, Cadw Data a Hysbysiadau Diogelwch Cenedlaethol*

Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn dymuno rhoi hysbysiad i weithredwr, yn gyntaf mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt i ymgynghori â'r gweithredwr. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, gan dybio bod gofyniad i roi hysbysiad o hyd, mae'r hysbysiad wedi'i "gloi ddwywaith" (h.y. gwneir penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi'r hysbysiad ac yna caiff y penderfyniad hwnnw ei gymeradwyo (neu beidio)

gan Gomisiynydd Barnwrol). Unwaith y bydd y Comisiynydd Barnwrol wedi cymeradwyo penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, yna rhoddir yr hysbysiad yn ffurfiol i'r gweithredwr. Ar y pwynt hwn, fe ddaw'r hysbysiad i rym.

Unwaith y bydd yr hysbysiad wedi'i roi i'r gweithredwr, os yw'n anfodlon mae ganddo 28 diwrnod i ofyn am adolygiad o'r hysbysiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol. Nid oes unrhyw ofyniad i'r gweithredwr ofyn am adolygiad o hysbysiad, mae hynny yn ôl ei ddisgresiwn yn llwyr.

Mae'r broses ar gyfer adolygu hysbysiad wedi'i nodi yn yr IPA. Mae'n nodi bod rhaid i Gomisiynydd Barnwrol (yn ymarferol bydd hwn yn wahanol i'r Comisiynydd Barnwrol a oedd yn rhan o'r clo dwbl gwreiddiol) ystyried cymesuredd yr hysbysiad. Rhaid i'r TAB (a esbonnir yn fanylach yn yr adran isod) ystyried gofynion technegol a chanlyniadau ariannol yr hysbysiad.

Wrth ystyried y materion hyn, rhaid i'r Comisiynydd Barnwrol a'r TAB roi cyfle i'r gweithredwr a'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno sylwadau iddynt cyn dod i'w casgliadau. Yna caiff y casgliadau hyn eu hystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth iddynt benderfynu a ddylid amrywio, dirymu neu roi'r hysbysiad. Yna caiff y penderfyniad hwnnw ar yr hysbysiad ei gloi ddwywaith eto, naill ai drwy gymeradwyaeth y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio neu ei ddirprwyo i un o'r dirprwyon penodedig, o dan amgylchiadau pan na all y Comisiynydd wneud hynny. Yn y senario olaf, byddai cymeradwyaeth yn cael ei rhoi gan Gomisiynydd Barnwrol gwahanol (sydd hefyd yn Ddirprwy Gomisiynydd Pwerau Ymchwilio) i'r naill neu'r llall o'r ddau arall a oedd yn ymwneud â'r broses hysbysu yn flaenorol.

Fe wnaeth Deddf 2024 gyflwyno rhai diwygiadau i'r broses adolygu. Mae'r rhain yn darparu bod yr hysbysiad yn dod i rym yn ystod y cyfnod adolygu ac yn rhoi pwerau i'r Comisiynydd Barnwrol i wneud cyfarwyddiadau i reoli'r sylwadau a wneir iddynt gan y gweithredwr telathrebu a'r Ysgrifennydd Gwladol yn ogystal â'r pŵer i ddiystyru sylwadau a wneir y tu allan i'r terfynau amser a nodir yn y cyfarwyddiadau.

Yn ogystal, mae adran 90(5A) ac (11A) ac adran 257(4A) a (10A) o'r IPA, a fewnosodwyd gan Ddeddf 2024, yn cyflwyno pwerau newydd i wneud rheoliadau. Mae'r pwerau hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio'r rheoliadau presennol[1] sy'n ymwneud ag adolygiad o hysbysiad o dan adrannau 90(1) a 257(1) o'r IPA, i bennu'r cyfnodau o amser y gall camau amrywiol yn y broses adolygu eu cymryd.

[1] Rheoliadau Pwerau Ymchwilio (Adolygu Hysbysiadau a'r Bwrdd Cynghori Technegol 2018 (SI 2018/354)

Y cyntaf o'r cyfnodau hyn yw "y cyfnod adolygu"[2]. Diffinnir y cyfnod adolygu yn y Rheoliadau drafft fel y pwynt pan fydd gweithredwr yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu hysbysiad, hyd at yr adeg y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl cael yr adroddiadau gan y TAB a'r Comisiynydd Barnwrol, yn penderfynu a ddylid dirymu, amrywio neu roi'r hysbysiad yn cadarnhau ei effaith. Dim ond trwy gytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, y Comisiynydd Barnwrol a'r gweithredwr y gellir ymestyn y cyfnod adolygu. Mae'r Rheoliadau drafft yn cynnig mai 180 diwrnod calendr yw'r cyfnod hwn.

Byddai hyn yn golygu, pe byddai angen ymestyn y cyfnod adolygu y tu hwnt i 180 diwrnod, er enghraifft, pe byddai'r Comisiynydd Barnwrol yn dal i fod angen sylwadau pellach gan y gweithredwr a'r Ysgrifennydd Gwladol oherwydd cymhlethdod y mater, yna drwy gytundeb y tri parti, gellid ymestyn y cyfnod adolygu. Gadewir hyd yr estyniad hwn yn ôl eu disgresiwn ar y cyd o ystyried natur unigryw pob adolygiad. Gellir cytuno ar estyniadau pellach hefyd lle bo angen.

Yr ail o'r cyfnodau hyn yw "y cyfnod perthnasol". Mae'r cyfnod perthnasol yn is-adran o'r cyfnod adolygu ac fe'i diffinnir gan y Rheoliadau drafft fel y pwynt pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael adroddiadau gan y TAB a'r Comisiynydd Barnwrol, hyd at y pwynt y byddant yn penderfynu a ddylid dirymu, amrywio neu roi'r hysbysiad. Mae'r Rheoliadau drafft yn cynnig gosod y cyfnod hwn yn 30 diwrnod calendr.

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ymestyn y cyfnod perthnasol hwn yn unochrog mewn amgylchiadau eithriadol (darperir enghreifftiau o hyn yn y Cod: er enghraifft, newid deiliad swydd Ysgrifennydd Gwladol neu pan fo digwyddiad terfysgol neu ddiogelwch gwladol arall). Fodd bynnag, pe byddai'r estyniad hwn yn fwy na'r cyfnod adolygu, yna ni all yr estyniad fod yn unochrog, ac mae angen cytundeb y Comisiynydd Barnwrol a'r gweithredwr.

Byddai hyn yn golygu, pe byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn y ddau adroddiad ar ôl 110 diwrnod calendr, heb estyniad, byddai angen cwblhau'r adolygiad ar ôl 140 diwrnod calendr. Pe byddai'r Ysgrifennydd Gwladol am ymestyn yr adolygiad, oherwydd amgylchiadau eithriadol, gallent wneud hynny hyd at 180 diwrnod calendr yn unochrog (a fyddai'n estyniad o 40 diwrnod yn yr enghraifft hon). Fodd bynnag, pe byddai'n angenrheidiol i'r cyfnod perthnasol fynd y tu hwnt i'r pwynt hwnnw, byddai angen iddynt geisio cytundeb gan y Comisiynydd Barnwrol a'r gweithredwr.

Darperir diagram ar ddiwedd yr adran hon o'r ddogfen i ddangos y ddau gyfnod hyn ymhellach.

[2] Gweler Rheoliad 6 o'r Rheoliadau drafft.

### *Bwrdd Cynghori Technegol (TAB)*

Mae'r TAB yn gorff cyhoeddus anadrannol a sefydlwyd gyntaf o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ac a gynhelir bellach o dan yr IPA, ag aelodau wedi'u penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r IPA yn ei gwneud yn ofynnol i aelodaeth y TAB gynnwys personau sy'n gallu cynrychioli buddiannau'r rhai y gellir gosod rhwymedigaethau arnynt yn rhinwedd yr hysbysiadau, y rhai sy'n gallu cynrychioli buddiannau personau sydd â hawl i wneud cais am warantau o dan yr IPA, ac unrhyw bersonau priodol eraill. Mae adran 245 o'r IPA yn pennu y gellir gosod manylion ynghylch y TAB (e.e. yn ymwneud ag aelodaeth) mewn rheoliadau.

O dan Rheoliadau Pwerau Ymchwilio (Adolygu Hysbysiadau a Bwrdd Cynghori Technegol) 2018, ar hyn o bryd rhaid i'r TAB gynnwys o leiaf dri aelod ar ddeg ond dim mwy na phymtheg aelod.

Rhaid i chwech o'r aelodau hyn (a dim mwy) fod yn berson y gellir gosod rhwymedigaethau arno yn rhinwedd hysbysiadau cadw, hysbysiadau diogelwch gwladol a hysbysiadau gallu technegol (neu berson sy'n cynrychioli buddiannau pobl o'r fath), a elwir yn anffurfiol fel "Aelodau diwydiant". Rhaid i chwech o'r aelodau hyn (a dim mwy) fod yn berson sydd â hawl i wneud cais am warantau o dan yr IPA (neu'n berson sy'n cynrychioli buddiannau pobl o'r fath), a elwir yn anffurfiol yn "aelodau'r Llywodraeth".

Rhaid i un aelod (a gellir penodi dau aelod arall) fod yn annibynnol i'r naill grŵp neu'r llall, nad yw'r naill na'r llall o'r nodweddion hyn yn berthnasol iddynt, a elwir yn anffurfiol yn "Aelodau Annibynnol".

Rhaid i bob aelod o'r TAB gael cliriad diogelwch priodol.

O dan y Rheoliadau presennol, mae cworwm ar gyfer y TAB yn cynnwys tri aelod o Ddiwydiant, tri aelod o'r Llywodraeth ac un aelod annibynnol (3:3:1). O'i gymryd gyda'r lleiafswm cyffredinol ar gyfer y TAB o dri aelod ar ddeg, mae hyn yn golygu na all y TAB ystyried adolygiadau cydamserol ar hyn o bryd, oni bai bod mwy nag un aelod annibynnol yn cael ei benodi.

Gan fod aelodau TAB yn cael eu penodi'n gyhoeddus ac nid yn cael eu talu am eu gwaith (ac eithrio'r Cadeirydd) mae'n rhaid iddynt gydbwyso gwaith a rhwymedigaethau y tu allan i'r TAB ochr yn ochr â'u gwaith ar yr adolygiad. Mae hyn yn golygu, er y gall y TAB (sy'n cynnwys mwy nag un aelod annibynnol) gynnal dau adolygiad ar yr un pryd, mae'n annhebygol o dan y rheolau presennol y byddai'n bosibl iddynt wneud hynny oherwydd diffyg aelodaeth.

Wrth ystyried ymhellach effaith y newidiadau i linell amser adolygiad, fel y'u cyflwynwyd gan Ddeddf 2024 ac a eglurwyd uchod, mae'n amlwg bod angen rhoi mwy o wydnwch i'r TAB a sicrhau nad oes effeithiau andwyol ar weithredwyr oherwydd y cyfyngiad presennol ar gapasiti ei aelodaeth. Mae'r Rheoliadau drafft, felly, yn cynnig dileu'r gofyniad y dylai'r TAB gael ei gyfyngu i uchafswm o bymtheg

aelod. Byddai hyn yn galluogi'r TAB i gynyddu penodiadau aelodau ag arbenigedd cyfreithiol a thechnegol.

Rydym hefyd yn cynnig dileu'r isafswm o dri aelod ar ddeg. Bydd gofynion sylfaenol bwrdd adolygu TAB (3:3:1) yn aros yn y gofyniad cworwm, felly ni fydd yr addasiad hwn yn effeithio ar gydbwysedd y rhai sy'n cynnal adolygiad - yn syml, bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r TAB a'i allu i gynnal adolygiadau, pe byddai aelodau'n tynnu'n ôl o aelodaeth yn gyfan gwbl ar fyr rybudd.

Yn olaf, mae'r Rheoliadau drafft yn cynnig newid y gofyniad cworwm penodol o 3:3:1. Byddem yn cynnal y gymhareb hon fel y gofyniad lleiaf ar gyfer cworwm, ond hefyd yn cyflwyno gofyniad ehangach bod rhaid i gworwm gael ei gydbwyso. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer cymarebau gyda chronfa aelodaeth fwy, pe byddai'n cael ei ystyried yn angenrheidiol at ddiben adolygiad penodol (e.e. 4:4:1, 5:5:1 ac ati). Rydyn yn credu bod y newid hwn o fudd nid yn unig i'r TAB ond i bawb sy'n ymwneud â'r broses drwy sicrhau y gellir defnyddio'r arbenigedd priodol yn ystod adolygiad.

## *Llinell amser adolygu hysbysiadau*

<u>Camau adolygiad</u>

Mae'r gweithredwr yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu'r hysbysiad cyfan, neu ran ohono.

Mae'r Comisiynydd Barnwrol a'r Bwrdd Cynghori Technegol yn paratoi eu hadroddiadau. Mae'r gweithredwr a'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu cyflwyno sylwadau iddynt fel rhan o'u proses casglu tystiolaeth.

Fe wnaeth y Ddeddf Pwerau Ymchwilio (Diwygio) ddiwygio pwerau'r Comisiynydd Barnwrol ar gyfer y rhan hon o'r broses gan ganiatáu iddynt roi cyfarwyddiadau i'r ddau barti ac i ddiystyru sylwadau a wnaed y tu allan i'r amserlenni a nodir yn y cyfarwyddiadau.

Ar ôl derbyn y ddau adroddiad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y penderfyniad i amrywio, rhoi neu ddirymu'r hysbysiad.

CYFNOD YR ADOLYGIAD

Dim ond os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, y gweithredwr a'r Comisiynydd Barnwrol yn cytuno i'r estyniad y gellir ei ymestyn.

Y CYFNOD PERTHNASOL

Dim ond mewn "amgylchiadau eithriadol" y gellir ei ymestyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, ni all yr estyniad hwn fod yn fwy na chyfanswm amser cyfnod yr adolygiad heb y cytundeb estyniad gofynnol ar gyfer hynny

Y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio sy'n darparu'r clo dwbl terfynol (os oes angen).

Fe wnaeth y Ddeddf Pwerau Ymchwilio (Diwygio) ddiwygio hyn i ganiatáu i'r ddau Ddirprwy Gomisiynydd Pwerau Ymchwilio hefyd wneud y penderfyniad terfynol hwn o dan amgylchiadau pan nad yw'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn gallu neu pan nad yw ar gael i gyflawni'r swyddogaeth hon.

### *Beth sy'n cael ei gynnwys ar Hysbysiadau Hysbysu yn y Rheoliadau drafft?*

Mae’r hysbysiad o newidiadau arfaethedig yn rhwymedigaeth y gellir ei gosod ar weithredwyr perthnasol sy’n darparu, neu y gellir disgwyl iddynt ddarparu, mynediad cyfreithlon o werth gweithredol sylweddol, i hysbysu’r Ysgrifennydd Gwladol am newidiadau technegol y maent yn bwriadu eu gwneud a allai effeithio ar alluoedd mynediad cyfreithlon.

Mae Deddf 2024 yn cyflwyno pŵer dirprwyedig i’r Ysgrifennydd Gwladol nodi mewn rheoliadau fanylion pellach ynghylch newidiadau perthnasol a throthwyon cysylltiedig a allai sbarduno’r Ysgrifennydd Gwladol i roi hysbysiad hysbysu i weithredwr o dan adran 21.

Yn ystod taith Deddf 2024, fe wnaethom gyhoeddi datganiad polisi ar Reoliadau drafft ar gyfer hysbysu am newidiadau arfaethedig i wasanaethau telathrebu. Mae’r rheoliadau hyn yn adeiladu ar y datganiad polisi hwnnw.

Mae’r Rheoliadau’n nodi manylion y newidiadau a allai fod yn “newid perthnasol” ac felly fod yn destun hysbysiad hysbysu o dan adran 258A o’r IPA. Dim ond os ydynt yn effeithio ar alluoedd mynediad cyfreithlon y gwasanaethau neu'r systemau a nodir yn y fanyleb gyfrinachol y bydd yn ofynnol i weithredwr hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am y newidiadau hyn. Gan y bydd pob hysbysiad hysbysu yn unigryw i'r gweithredwr dan sylw, mae'n bosibl mai dim ond rhai o'r newidiadau hyn fydd yn cael eu cynnwys mewn hysbysiad ac nid oes gofyniad iddynt i gyd fod o fewn hysbysiad. Mae hyn er mwyn sicrhau rheidrwydd a chymesuredd yr hysbysiad.

Rydym yn rhagweld y bydd hysbysiadau hysbysu yn cael eu rhoi i nifer fach iawn o'r gweithredwyr hynny o fewn cwmpas yr IPA.

Yn olaf, mae'r Rheoliadau'n nodi, wrth gynnal yr asesiad hwn, bod y meini prawf y mae'n rhaid eu hystyried yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Y nifer presennol neu ddisgwyliedig o warantau, awdurdodiadau neu geisiadau a roddwyd i'r gweithredwr o dan yr IPA.
- Pwysigrwydd gweithredol y data a ddarparwyd o dan y bwled blaenorol.
- Y mathau o wasanaethau y mae'r gweithredwr yn eu darparu.
- Sylfaen cwsmeriaid y gweithredwr.
- Cyfran marchnad y gweithredwr.